

Edrych ar ôl eich Gwybodaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae Cyngor Caerdydd yn casglu gwybodaeth bersonol (data) i'n galluogi i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd rhannau o'r wybodaeth hon yn wybodaeth sensitif am faterion fel iechyd, anabledau neu gefndir hiliol neu ethnig. Efallai y bydd angen i ni gasglu gwybodaeth am ofalwyr, ffrindiau a pherthnasau pobl hefyd. Byddwn wedi amlinellu wrthyfych pam ein bod yn casglu'r wybodaeth, naill ai ar lafar neu ar ffurflen y byddwch wedi'i llenwi. Mae'r hysbysiad hwn yn egluro rhagor am sut rydym yn prosesu'r wybodaeth, at beth y caiff ei defnyddio a sut rydym yn gofalu amdani.

At ba ddibenion y defnyddir y wybodaeth?

Defnyddir y wybodaeth i benderfynu p'un a yw pobl yn gymwys i gael gwasanaethau a pha wasanaethau y gallant eu cael. Rydym hefyd yn defnyddio'r wybodaeth i'n helpu i gynllunio, trefnu a gwella'r gwasanaethau hynny, adrodd ar y gwaith rydym wedi'i wneud a dangos sut rydym wedi defnyddio arian cyhoeddus yn briodol. Pan yn bosibl bydd y wybodaeth a ddefnyddir at y dibenion hyn yn aros yn ddienw.

Gofal am eich gwybodaeth

Rydym yn cadw'ch gwybodaeth yn ddiogel ac ni fyddwn yn ei chadw'n hirach na'r hyn sydd ei angen. Byddwn yn gwneud yn siwr ei bod ond ar gael i'r rhai sydd angen ei gweld.

Rhannu eich gwybodaeth

Gallwn rannu rhywfaint o'r wybodaeth gyda sefydliadau eraill gan gynnwys: n y rhai sy'n darparu gwasanaethau gofal n y rhai sy'n arolygu ac yn monitro ein gwaith a n sefydliadau fel y GIG sy'n gweithio gyda ni i ddarparu gwasanaethau. Byddwn yn gofyn am eich caniatâd cyn rhannu eich gwybodaeth a sefydliad arall os yw hyn yn ymarferol, fel arfer ar yr adeg y byddwn yn ei chasglu. Byddwn ond yn rhannu'r wybodaeth hon gyda sefydliad os bydd angen y wybodaeth arnynt i wneud eu gwaith. Ni fyddwn yn anfon mwy o wybodaeth nag sydd ei hangen. Byddwn yn rhannu'ch gwybodaeth heb eich caniatâd dim ond os yw'r gyfraith yn dweud y dylem wneud. Gallai hyn fod i warchod eich buddiannau hanfodol, i atal rhywun arall rhag bod mewn perygl neu i ganfod neu atal twyll.

A allaf weld y wybodaeth?

Gallwch, ac mewn gwirionedd mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a gadwn amdanoch yn wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni. Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi. Gallem godi tâl bychan am y gwasanaeth hwn. Gallwch hefyd ofyn i ni gywiro neu ddileu gwybodaeth os ydych yn credu ei bod yn anghywir.

A allaf weld yr holl wybodaeth sydd amdanaf?

Gallwch fel arfer. Ar rai achlysuron prin, er enghraifft, os yw rhannu'r wybodaeth yn debygol o arwain at niwed difrifol i chi neu rywun arall, efallai y bydd yn rhaid i ni gadw rhywfaint yn ôl. Nid oes gennych hawl i weld gwybodaeth am rywun arall hyd yn oed os yw'r wybodaeth yn eich ffeil chi. Nid oes gennych hawl i weld gwybodaeth a ddarperir gan rywun arall os bydd ei datgelu yn dweud wrthy ch pwy yw'r person. Os felly, byddwn ni'n siarad â nhw yn y lle cyntaf. Os oes gwybodaeth na allwn ei rhoi i chi, byddwn yn egluro pam a bydd hawl gennych i apelio.³

Sut y gallaf weld y wybodaeth sy'n cael ei gadw amdanaf i?

Gofynnwch i'r staff sy'n gweithio gyda chi'n gyntaf. Byddant yn dweud beth sydd gennym, beth y gallant rannu gyda chi ar unwaith a p'un a oes unrhyw wybodaeth y byddai'n rhaid i chi wneud cais ffurfiol i'w gweld.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw'r awdurdod rheoli ar gyfer materion sy'n ymwneud â gwybodaeth
Ffôn: 0303 123 1113
www.ico.gov.uk